**<u>Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 13eg Mai 2025 yn Neuadd Felinfach</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Melinda Williams Cadeirydd), Gerwyn Owen, Haf Hughes, Glyn Davies, Alan Henson, Daniel Evan, Hywel Ifans.

Y Cyng. Ceris Jones, Cynghorydd Sir

1.**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyngh. Lyn Williams

**2**. **PERSONOL**

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL -** Dim i'w datgelu

**4**. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr 14eg Mai,2024 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan Y Cyng. Haf Hughes Derbyniwyd yn unfrydol.

**5.. MATERION YN CODI** Dim materion i'w trafod

**6. DEWIS SWYDDOGION 2025-26**

| Swydd | Cynigydd: | Eilydd |
|---|---|---|

i. **Cadeirydd :** Cyng. Haf Hughes. Cadarnahodd yr Is-Gadeirydd ei bod yn derbyn swydd Cadeirydd.

ii. **Is-Gadeirydd** : Cyng. Lynford Thomas Cyng. G. Owen, Cyng. G. Davies

Cadarnhawyd y penodiadiadau ac arwyddwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan y ddau.

iii. **Clerc. Penderfynwyd** yn unfrydol ail-ethol y Clerc ar gyfer 2025-26 ac arwyddwyd y cytundeb, Cynigwyd gan Cyng. G. Davies ac eiliwyd gan y Cyng. G. Owen

iv. **Archwilydd Mewnol.** Penderfynwyd ail ethol Mr. Gwyn Jones. Enwebwyd gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. G. Davies.. **Penderfynwyd** anfon llythyr at Mr. Gwyn Jones yn ei wahodd i weithredu fel ein Archwilydd Mewnol am y flwyddyn 2025-2026 yn unol â'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys y ffi o £150.00.

Wrth droslgwyddo'r awennau diolchodd y Cyng. Melinda Williams i'r Clerc ac i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a dymunwyd yn dda i'r Cyng. Haf Hughes.

7. **CYLLID**

**i. Cyfrifon 2024-25**

Cwblhawyd y gwaith o archwilio'r cyfrifon gan yr Archwilydd Mewnol. Nodwyd y canlynol i sylw'r aelodau:

a) Bod y cyfrifon wedi eu cwblhau i safon uchel gyda'r gweithdrefiannau eu gyd wedi eu dilyn ac nid oedd unrhyw faterion i godi.

Yn dilyn trafodaeth bellach, **penderfynwyd derbyn** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ac chadarnhau cyfrifon 2024-25 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Haf Hughes ac eiliwyd gan y Cyng. A Henson. Cyhoeddir y cyfrifon ar y wefan a'r hysbysiad o'u cwblhau yn y bocsus gwybodaeth erbyn y 30ain Mehefin, 2025. Bydd y cyrifon yn cael eu hanfon at yr Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru, erbyn y 7fed o Orffennaf.

**ii.** **Lwfansau Cynhgorwyr**. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd na fyddai'r Cynghorwyr yn derbyn y lwfans a gynigir. Arwyddwyd taflenni gan y Cynghorwyr i dynnu allan o dderbyn y Lwfans Cynghorwyr am 2025-26. Anfonir ffurflen Datganiad o Daliadau i'r IRP yn dilyn y cyfarfod hwn.

**iii.** **Tâl Gweithwyr Rhan-Amser**. **Penderfynwyd** ychwanegu 2% i dâl y gweithwyr rhan-amser sef Mr. Tony Bretland a Mr. Les Verdin. **Penderfynwyd** cynnig codiad o 5% i'r Clerc o Ebrill 2025. Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas

**iv.** **Gweinyddu Cyflogres**. **Penderfynwyd yn unfrydol i** ofyn i gwmni Antur Teifi i weinyddu'r system cyflogres a PAYE ar gyfer cyflog y Clerc am 2025-26 ar gost o £6.00 y mis. Telir yr anfoneb yn flynyddol.

**v.** **Asedau ac Yswiriant**. Yn dilyn trafodaeth, derbyniwyd ac arwyddwyd y rhestr asedau gan y Cadeirydd.

**vi.** **Rheolau Ariannol**. Trafodwyd y rheolau ariannol a ddiwygiwyd yn ystod 2019-2020 mewn ymgynghoriad â Gwyn Jones, yr Archwilydd Mewnol. Derbyniwyd yn unfrydol ar gyfer gweithredu yn ystod 2025-26. Nodwyd yr ychwanegiad i'r Rheolau Ariannol a dderbyniwyd yng nghyfarfod Ebrill 2025 sef y rheolau Bancio ar-lein.

**vii.** **Rheolau Sefydlog.** Trafodwyd y rheolau sefydlog a derbyniwyd yn unfrydol.

**viii.** **Cofrestr Buddiannau.** Mae'r cofrestr buddiannau i'w weld ar y wefan ac yn cael ei gwblhau pan fydd Datganiad o Diddordeb yn cael ei gynnig gan Gynghorwyr.

**ix.** **Polisiau.** Nodwyd bod dogfennau llwyodraethiant y Cyngor i'w gweld ar y wefan sef:-

Iechyd a Diogelwch (a adnewyddwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ar gyfer 2025-26), Polisi Preifatrwydd, Polisi Iechyd Meddwl a Lles, Polisi Hyfforddiant, Polisi ac Adroddiad Bio-Amrywiaeth, Polisi'r Iaith Gymraeg ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** derbyn y polisïau.

Yn unol ag Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 nodwyd bod yr Adroddiad Bio-Amrywiaeth wedi ei gwblhau ac i'w weld ar y wefan. Nodwyd hefyd bod yr Adroddiad Blynyddol hefyd wedi ei gwblhau ac i'w weld ar y wefan.

9. **Y COD YMDDYGIAD**

Atgoffwyd pawb am bwysigrwydd y Cod Ymddygiad.

**10. UNRHYW FATER ARALL. Dim materion i'w trafod**

**11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF – 12eg Mai, 2026 Lleoliad i'w gadarnhau,**

.